# Telerau ac Amodau AGORED 2025

Gofynnwn yn garedig i chi ddarllen y telerau ac amodau cyn cyflwyno eich cais.

Cynhelir yr arddangosfa yn Safle Celf, Safle CREU ac Y Wal yn Galeri rhwng 22/11/25 – 31/01/26 ac mae'n hanfodol bod y gwaith ar gael yn ystod y cyfnod hwn i'w arddangos.

Does dim cyfyngiad o ran cyfrwng gwaith artist (ffilm, ffotograffiau, portreadau, crefft, gwydr, cerflun ac ati), na chwaith cyfyngiad oed na lleoliad daearyddol artist/ymgeisydd wrth ymgeisio.

**Sut i Ymgeisio**

Dim ond ar ffurflen ar-lein mae posib cyflwyno eich cais. Gofynnwn am:

1. Dim mwy na 5 delwedd digidol (JPEG) 300dpi neu gwaith ffilm dimmwy na thair munud o hyd yr un (linc ar gyfer youtube/vimeo) yn ogystal a maint/hyd a pris
2. Datganiad/cyflwyniad am y gwaith a gyflwynir
3. Ffi Gweinyddol £10 ac ni ellir ei ad-dalu

**Dyddiadau pwysig**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyflwyno eich gwaith | 23:59 | 15/09/25 |
| Panel yn dethol | erbyn | 03/10/25 |
| Artistiaid i gludo'r gwaith i Galeri | 9-6pm | 12/11/25 – 15/11/25 |
| Cyfnod arddangos | 22/11/25 – 31/01/26 | |
| Agoriad swyddogol / dewis y beirniaid | 18:30 | 21/11/25 |
| Casglu'r gwaith o Galeri | 02/02/26 – 03/02/26 | |

**Panel detholwyr 2023:**

2 Panel Dethol Gwadd ac aelodau o Tim Creadigol Galeri
(Yn anffodus ni all y panel roi adborth i artistiaid heb eu dethol ac mae eu penderfyniad yn derfynol.)

**Hysbysu'r artistiaid:**

Byddwn yn hysbysu'r holl artisitiaid o bwy sydd wedi eu dethol drwy ebost erbyn 03/10/25

**Danfon a chasglu gwaith:**

Bydd gofyn i'r artist sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd y Safle Celf rhwng 12/11/25 – 15/11/25. Bydd yr arddangosfa angen bod yn barod i'w agor ar y dyddiad/amser a drefnir gyda'r Swyddog Celfyddydau Gweledol. Bydd angen i'r artist drefnu bod y gwaith yn cael ei gasglu ar ddiwedd yr arddangosfa yn unol a'r cytundeb gyda'r cydlynydd celf.

**Cludo y gwaith i/o Galeri**:

Yr artist sydd yn gyfrifol am bacio'r gwaith ac am holl gostau a threfniant cludo i ac o'r Safle Celf.

**Gosod y gwaith:**

Bydd y trefnwyr yn gosod y gwaith/arddangosfa dan oruchwyliaeth Swyddog Celfyddydau Gweledol Galeri.

**Yswiriant**:

Cynghorir ymgeiswyr i yswirio unrhyw waith a anfonir i/o Galeri. Bydd Galeri yn yswirio'r gwaith yn ystod y cyfnod arddangos.

**Comisiwn ar werthiant:**
Bydd comisiwn Galeri ar unrhyw werthiant yn 30% +TAW. (Cofiwch ystyried hyn pan yn prisio eich gwaith). Yr artist fydd yn cadw gweddill yr arian.

**Cyflwyniad y gwaith:**
Dylid sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflwyno yn broffesiynol. Gall cyflwyniad gwael effeithio ar ansawdd y gwaith gorffenedig. Am ganllawiau fframio a chyflwyno'r gwaith, cysylltwch â'r Swyddog Celfyddydau Gweledol.

**Am fwy o wybodaeth:**
Cysylltwch â'r cydlynydd celf: 01286 685 208 agored@galericaernarfon.com